# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **21 Ionawr 2025**

**Teitl:** **Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ynghylch Gorfodaeth Cynllunio**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 20 Ionawr 2025**

Yn dilyn adroddiad ar y gwasanaeth cynllunio yn Hydref 24, gwnaeth aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ofyn am adroddiad penodol ar ofynion adnoddau cymorth ychwanegol y gwasanaeth gorfodi. Trafododd y Pwyllgor y gofyniad am adnoddau cymorth ychwanegol o fewn y gwasanaeth gorfodi cynllunio a'r lefel gwasanaeth y mae aelodau yn dymuno ei fabwysiadu. Amlinellwyd y strwythur presennol i'r Pwyllgor a nodwyd y pryderon canlynol:

1. Mae'r llwyth achos yn anghynaladwy ar gyfer yr adnodd staffio sydd ar gael gennym.
2. Mae gan Swyddogion Cynllunio gapasiti cyfyngedig i gefnogi'r swyddogaeth orfodi a chynnal perfformiad cyfredol
3. Mae diffyg gwybodaeth am orfodaeth yn y tîm (gwasanaeth cynllunio ehangach)
4. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn treulio cryn amser yn cefnogi'r swyddogaeth Gorfodi
5. Nid oes unrhyw strwythur ffurfiol yn y tîm gorfodi, felly nid yw staff yn medru gwneud cynnydd
6. Nid oes unrhyw arbenigwr cyfreithiol neu orfodi penodol o fewn yr awdurdod ehangach

Trafodwyd yr angen i gefnogi'r gwasanaeth gorfodi yng ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ehangach y Gwasanaeth Cynllunio a weithredwyd wedi adolygiad Archwilio Cymru. Mae aelodau a swyddogion yn y grŵp hwnnw o'r farn bod angen adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth gorfodi effeithiol yn cael ei ddarparu. Nodwyd hyn mewn dull Platinwm, Aur, Arian ac Efydd gydag Efydd yn cynrychioli ein cyllideb a'n capasiti presennol. Ystyriodd yr Aelodau yr opsiynau Platinwm, Aur, Arian ac Efydd gan bwyso a mesur manteision ac anfanteision pob un ohonynt.

**Argymhelliad**

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd yr Aelodau i argymell i'r Cabinet fod cyllid ychwanegol yn cael ei roi i'r gwasanaeth gorfodi, a hynny ar ffurf yr opsiwn Platinwm, er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol, recriwtio staff ychwanegol a sicrhau bod gwasanaeth gorfodi effeithiol yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Dyma'r opsiwn Platinwm fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad:

Platinwm - dull a ganiateir heb doriadau

- 1 Cyfreithiwr Gorfodi pwrpasol llawn amser
- 1 Uwch Swyddog Gorfodi llawn amser
- 2 Swyddog Gorfodi Arbenigol Llawn Amser (Treftadaeth a Gweithredu Uniongyrchol)
- 3 Swyddog Gorfodi Llawn Amser
- 2 Gynorthwyydd Cydymffurfio Llawn Amser (yn y swydd ar hyn o bryd)

**Y Cynghorydd Marc Davies**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus***